Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

# Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant
# **Cynllun Strategol 2017 - 2022**

# Cynnwys


3. **Rhagair gan yr Is-Ganghellor a Chadeirydd y Cyngor**

4. **Cenhadaeth**

5. **Gwerthoedd**

6. **Blaenoriaethau Strategol**

14. **Galluogwyr**






# Rhagair gan yr Is-Ganghellor a Chadeirydd y Cyngor

Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant yw'r Brifysgol â'r Siarter Frenhinol hynaf yng Nghymru ac mae'n falch i gael Ei Uchelder Brenhinol, Tywysog Cymru, yn noddwr arni. Rydym yn rhan o Grŵp Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant, menter gydweithredol amlsefydliadol sy'n eiddo i'r Brifysgol ac a lywodraethir ganddi, gyda Choleg Sir Gâr a Choleg Ceredigion yn golegau cyfansoddol. Cynigia'r Grŵp ymagwedd integredig, sector deuol at addysg er budd dysgwyr, cyflogwyr a chymunedau, a chyfoethogir hyn ymhellach yn ddiweddarach eleni trwy uno â Phrifysgol Cymru. Bydd yr uno'n cwblhau sefydlu Prifysgol ar ei newydd wedd, a bydd yn gyfle i ddathlu'r cyfraniadau hanesyddol y mae holl aelodau Grŵp Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant wedi'u gwneud i addysg yng Nghymru.

Felly cyflwynir y Cynllun Strategol hwn ar adeg o newid parhaus i'r Brifysgol ac i addysg yn fwy cyffredinol, ac mewn cyfnod o ansicrwydd sylweddol yn deillio o ffactorau allanol, yn cynnwys gostyngiadau mewn cyllid a bwriad y Deyrnas Unedig i dynnu'n ôl o'r Undeb Ewropeaidd. Cydnabyddwn yr heriau sylweddol yn yr hinsawdd sydd ohoni. Fodd bynnag camwn i'r cyfnod cynllunio newydd â hyder yng nghyfeiriad strategol Grŵp Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant, ac yn yr addysg nodedig a gynigiwn ar ein campysau ar draws Cymru, yn Llundain a thrwy ein partneriaethau cydweithredol. Rydym yn rhagweithiol wrth geisio cyfleoedd i ddatblygu, ac mae ein gallu i weithio ar draws ffiniau traddodiadol yn ein paratoi'n dda ar gyfer yr heriau sydd o'n blaen.

Yn greiddiol i'n Cynllun Strategol mae ymrwymiad i'n holl ddysgwyr ac i Gymru'n benodol - i'w diwylliant, ei threftadaeth a'i hiaith, ac i ffyniant ac iechyd hirdymor ei dinasyddion. Cydnabyddwn ein rhan leol, genedlaethol, ryngwladol a dinesig yn ddarparwr addysg uwch, a'r cyfrifoldebau sydd arnom. I adlewyrchu'r ymrwymiad hwn, rydym wedi gwneud y saith nod a'r pum ffordd o weithio a geir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ganolog i'n cynllunio, ac wedi sicrhau bod ein dyheadau ni'n cyfateb yn agos i'r rhai a fynegwyd gan Lywodraeth Cymru yn Symud Cymru Ymlaen 2016-21.

Ar ddiwedd y cyfnod cynllunio cyfredol yn 2022 byddwn yn dathlu deucanmlwyddiant Siarter Frenhinol y Brifysgol. Bydd yr achlysur hanesyddol hwn hefyd yn gyfle i ni adfyfyrio ac adeiladu ar orchestion sylweddol Grŵp Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant ers ei sefydlu yn llawer mwy diweddar. Credwn fod y Cynllun Strategol yn gosod agenda uchelgeisiol ond realistig ar gyfer y pum mlynedd nesaf, a bydd ei chyflawni'n hanfodol i lwyddiant parhaus y Grŵp ac i ffyniant a chydnerthedd y cymunedau a wasanaethwn.

**Yr Athro Medwin Hughes, DL**
Is-Ganghellor

**Yr Hybarch Randolph Thomas**
Cadeirydd y Cyngor

# Cenhadaeth

**Trawsnewid Addysg;
Trawsnewid Bywydau.**

# Gweledigaeth

**Ein gweledigaeth yw bod yn Brifysgol i Gymru, gydag ymrwymiad i les a threftadaeth y genedl yn greiddiol i bopeth a wnawn.**

**Yn ganolog i'n gweledigaeth mae hyrwyddo ac ymgorffori system addysg sector deuol sy'n addysgu dysgwyr o bob oed a chefndir, ac sy'n ysgogi datblygiad economaidd yn ein rhanbarth, ar draws Cymru a thu hwnt.**





# Gwerthoedd

Trwy ein gweithgareddau hyrwyddwn:

**Addysgu ardderchog yn seiliedig ar ysgolheictod ac arfer proffesiynol,** ac **ymchwil cymhwysol** sy'n dylanwadu ar wybodaeth a pholisi yng Nghymru a thu hwnt.

**Cynwysoldeb,** trwy ddileu rhwystrau i gyfranogiad a chefnogi pobl o bob math o gefndiroedd ac amgylchiadau i gyflawni eu potensial.

**Cyflogadwyedd a chreadigrwydd,** trwy gynnig rhaglenni addysgol sy'n datblygu sgiliau entrepreneuraidd a chreadigol, gan alluogi dysgwyr i gael y cyfleoedd gorau i sicrhau swydd ac i gyfrannu at ffyniant eu cymunedau.

**Cydweithio trwy berthnasau strategol,** gan weithio gydag eraill i ddarparu cyfleoedd addysgol a masnachol ac i sicrhau bod Cymru wedi'i chysylltu â'r byd ehangach.

**Datblygu cynaliadwy,** trwy ymddwyn mewn ffordd sy'n sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau, a thrwy ymgorffori'r egwyddor hon yn systematig yn ein hymagwedd at addysgu a dysgu.

**Cysyniad dinasyddiaeth fyd-eang,** trwy ddatblygu gweithgareddau a chyfleoedd rhyngwladol i'n dysgwyr, ein staff a'n partneriaid.

**Cymru a'i chymeriad arbennig,** trwy ymgorffori nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn ein holl weithgareddau, a thrwy ddathlu iaith, treftadaeth a diwylliant bywiog Cymru.






# Blaenoriaethau Strategol

Adlewyrchir ein Gwerthoedd mewn pedair Blaenoriaeth Strategol ar gyfer y cyfnod cynllunio:

## Blaenoriaeth Strategol 1: Rhoi Dysgwyr yn Gyntaf

### Gwerth

**Cynwysoldeb, trwy ddileu rhwystrau i gyfranogiad a chefnogi pobl o bob math o gefndiroedd ac amgylchiadau i gyflawni eu potensial.**

### Gwerth

**Cyflogadwyedd a chreadigrwydd, trwy gynnig rhaglenni addysgol sy'n datblygu sgiliau entrepreneuraidd a chreadigol, gan alluogi dysgwyr i gael y cyfleoedd gorau i sicrhau swydd ac i gyfrannu at ffyniant eu cymunedau.**





**Mae'r dysgwr yn ganolog i Grŵp Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant ac mae ein hymrwymiad i ddarparu profiad dysgu ardderchog yn greiddiol i'n gweithgareddau.**

Credwn fod addysg yn newid bywydau a, thrwy weithio mewn partneriaeth ag Undeb y Myfyrwyr, rydym wedi ymrwymo i gefnogi dysgwyr i wireddu eu potensial o fewn amgylcheddau dysgu sy'n groesawgar, cynhwysol, cefnogol a diogel.

## Byddwn felly'n

- Darparu profiad dysgu cefnogol, cynhwysol o ansawdd uchel ar gyfer ein holl ddysgwyr i'w galluogi i wireddu eu potensial llawn
- Gweithio mewn partneriaeth â'n dysgwyr i'w hannog i fynd i'r afael yn llawn â'u rhaglenni astudio ac i gymryd rhan lawn yn ein prosesau penderfynu
- Cynnig rhaglenni academaidd atyniadol a pherthnasol sy'n galluogi ein dysgwyr i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen arnynt ar gyfer gwaith a sicrhau y gallant, yn eu tro, wneud cyfraniad uniongyrchol i les a ffyniant eu cymunedau
- Parhau i ddatblygu ein portffolio o raglenni a gyflwynir yn hyblyg, gan alluogi dysgwyr i gael cyfleoedd astudio mewn modd sy'n addas i'w ffordd o fyw a'u hymrwymiadau
- Cyfrannu at greu Cymru fwy cyfartal trwy hyrwyddo cyfranogiad gan grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol, trwy ddarparu cyfleoedd dysgu hygyrch a thrwy ddileu rhwystrau i gyfranogiad, gan sicrhau bod y rhai sy'n dewis astudio gyda ni'n derbyn cymorth ardderchog trwy gydol eu cyfnod astudio
- Parhau i wella ein campysau a'n cyfleusterau, gan sicrhau bod y dysgwyr yn derbyn amgylcheddau atyniadol, cefnogol, cynhwysol a chynaliadwy i astudio ynddynt
- Cwblhau Campws Glannau Abertawe a pharhau i wella'r adeiladau a ddefnyddiwn ar draws pob campws

## Mesurau llwyddiant

O fewn y cyfnod cynllunio byddwn yn mesur ein llwyddiant trwy'r canlynol:

- Cyrraedd targedau recriwtio a pharhad penodol, i'n galluogi i ddarparu rhaglenni astudio bywiog a hyfyw
- Cynnydd yn y nifer o ddysgwyr sy'n symud ymlaen o addysg bellach i addysg uwch o fewn Grŵp Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant
- Cyrraedd targedau penodol o ran recriwtio a pharhad grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol, yn cynnwys dysgwyr israddedig rhan amser, dysgwyr sy'n byw yng Nghymru mewn ardaloedd o amddifadedd penodol, a dysgwyr sy'n derbyn Lwfans Myfyrwyr Anabl (DSA)
- Cynnal a chadw cyfran ein dysgwyr sy'n ennill gradd anrhydedd dda yn unol â normau'r sector
- Cyfranogiad dysgwyr mewn interniaethau, cynlluniau llysgenhadon, cyfleoedd o ran symudedd a mentrau dan arweiniad dysgwyr megis Effaith Werdd
- Parhau i wella ein perfformiad yn yr Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr (NSS) ac arolygon boddhad eraill
- Gwelliant yn ein perfformiad yn arolwg Cyrchfannau Ymadawyr Addysg Uwch (DLHE) a dulliau eraill o fesur cyflogaeth graddedigion
- Cwblhau Campws Glannau Abertawe a symud dysgwyr ar raglenni perthnasol yn llwyddiannus

### Dangosyddion Perfformiad Allweddol (KPI)

**KPI 2:** Proffil Academaidd a Sefyllfa'r Farchnad

**KPI 7:** Profiadau Myfyrwyr

**KPI 9:** Ystadau a Seilwaith

# **Blaenoriaeth Strategol 2:** Rhagoriaeth mewn Addysgu, Ysgolheictod ac Ymchwil Cymhwysol

## Gwerth

**Addysgu ardderchog yn seiliedig ar ysgolheictod ac arfer proffesiynol, ac ymchwil cymhwysol sy'n dylanwadu ar wybodaeth a pholisi yng Nghymru a thu hwnt.**





**Yn hanfodol i gyflawni ein Cenhadaeth mae ymrwymiad i ragoriaeth academaidd trwy ddarparu addysgu o ansawdd uchel, sy'n seiliedig ar ysgolheictod, ymchwil ac arfer proffesiynol staff, ac a gyflwynir trwy ddulliau sy'n ennyn diddordeb ac yn herio ein dysgwyr.**

Gan adeiladu ar orchestion hanesyddol ein sefydliadau gwreiddiol, rydym hefyd yn arwain ymagweddau newydd at ddarparu addysg athrawon yng Nghymru, gan weithio gydag ysgolion i roi i'r genhedlaeth nesaf o athrawon y sgiliau sydd eu hangen arnynt i godi safonau ac ysbrydoli disgyblion. Rydym wedi ymrwymo i wella ein perfformiad ymchwil yn bennaf trwy bwyslais ar ymchwil cymhwysol sydd â photensial masnachol, gan gynyddu i'r eithaf ein cyfraniad i'r economi ranbarthol.

## Byddwn felly'n

- Darparu addysgu ardderchog ac ysgogol ar draws yr holl raglenni astudio, sy'n seiliedig ar ysgolheictod ac arfer proffesiynol staff
- Cefnogi ein staff i arloesi ac i gyrraedd y safonau uchaf o ran arfer addysgu, gan gynnwys trwy ddefnydd cynyddol o ddysgu a gyfoethogir gan dechnoleg a sefydlu platfform Campws Byd-eang
- Ceisio achrediad ar gyfer rhaglenni Addysg Gychwynnol Athrawon newydd trwy'r Athrofa Addysg
- Cynnal a gwella rhagoriaeth ryngwladol yr ymchwil gan y Ganolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd a meysydd ymchwil ac arloesi eraill sy'n gysylltiedig â Phrifysgol Cymru, ac mewn meysydd dethol yn y Brifysgol ar ei newydd wedd
- Datblygu i'r eithaf gyfleoedd i'r holl staff a'r dysgwyr gymryd rhan mewn ysgolheictod, arfer proffesiynol, ymchwil cymhwysol a gweithgareddau masnacheiddio
- Cynnal safonau academaidd uchaf ein dyfarniadau, a pharhau i gymryd rhan mewn asesiadau allanol o ran rhagoriaeth addysgu ac ymchwil
- Gwella ein trefniadau llywodraethu academaidd i alluogi llywodraethwyr i ffurfio barn lawn a gwybodus am ansawdd academaidd a sicrhau ansawdd

## Mesurau Llwyddiant

O fewn y cyfnod cynllunio byddwn yn mesur ein llwyddiant trwy'r canlynol:

- Gwelliant parhaus o ran ein perfformiad yn yr Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr (NSS) mewn mesurau sy'n ymwneud yn benodol ag ansawdd yr addysgu a'r her i'r dysgwr
- Cynnydd yng nghyfran y staff sydd wedi ennill Cymrodoriaeth yr Academi Addysg Uwch (HEA)
- Cyrraedd safon 'Arian' yn y Fframwaith Rhagoriaeth Addysgu
- Cyrraedd targedau recriwtio priodol ar gyfer Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon
- Gweithredu strategaethau newydd ar gyfer ymchwil, ymchwil cymhwysol a masnacheiddio
- Cynnydd mewn incwm o ymchwil a gweithgareddau masnacheiddio
- Cael dyfarniad 'Yn Cwrdd â Disgwyliadau'r Deyrnas Unedig' mewn adolygiad asesu ansawdd allanol

## Dangosyddion Perfformiad Allweddol (KPI)

**KPI 5:** Ymchwil Pur a Chymhwysol

**KPI 8:** Dysgu ac Addysgu

# Blaenoriaeth Strategol 3:
Creu Cyfleoedd trwy Bartneriaethau


## Gwerth

**Cydweithio trwy berthnasau strategol, gan weithio gydag eraill i ddarparu cyfleoedd addysgol a masnachol ac i sicrhau bod Cymru wedi'i chysylltu â'r byd ehangach.**

## Gwerth

**Cysyniad dinasyddiaeth fyd-eang, trwy ddatblygu gweithgareddau a chyfleoedd rhyngwladol i'n dysgwyr, ein staff a'n partneriaid.**





**Yn ôl Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 mae'n ofynnol i sefydliadau gydweithio â'i gilydd, cynnwys rhanddeiliaid ac integreiddio'u hamcanion ag amcanion cyrff eraill er budd hirdymor.**

Cydnabyddwn fod gweithio ar draws ffiniau traddodiadol yn hanfodol i gyflawni ein Cenhadaeth. Rydym yn hyrwyddo cysylltiadau rhwng addysg bellach ac uwch i greu llwybrau unigryw i wella sgiliau, er budd ein dysgwyr, eu cymunedau a'r economi.

Rydym wedi ymrwymo i ddatblygiad economaidd y rhanbarth trwy barhau i ddatblygu ein cysylltiadau â diwydiant, â darparwyr addysgol eraill ac â sefydliadau cenedlaethol yng Nghymru a thu hwnt, ac i greu cyfleoedd trwy bartneriaethau a fydd yn galluogi ein dysgwyr i gyflawni eu potensial llawn ac yn caniatáu i'n heconomi ffynnu.

## Byddwn felly'n

- Datblygu a gwella ein partneriaethau a'n cydffederasiynau gyda sefydliadau eraill, i gynyddu cyfleoedd i'r eithaf o ran addysg uwch a dilyniant i ddysgwyr
- Parhau i weithio'n agos gyda chyflogwyr rhanbarthol i ddynodi meysydd angen ac i ddatblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig, yn cynnwys trwy gyfleoedd dysgu seiliedig ar waith
- Parhau i gyfoethogi ein portffolio o ddyfarniadau galwedigaethol a thechnegol, yn cynnwys trwy ddatblygu prentisiaethau lefel uwch
- Parhau i weithio'n agos â'r awdurdodau lleol lle mae gennym gampysau i elwa i'r eithaf ar y manteision trwy bartneriaethau daearyddol
- Cefnogi datblygiad economaidd y rhanbarth trwy ymgysylltu'n strategol â phartneriaid busnes a dinesig
- Ymgysylltu'n weithredol â chyrff cyhoeddus a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ar draws Cymru, gan ganolbwyntio ar ein hymrwymiad cyffredin i'r saith nod a'r pum ffordd o weithio a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
- Ymgysylltu'n llawn â Bargen Ddinesig Dinas-ranbarth Bae Abertawe
- Datblygu ein gweithgareddau ymgysylltu allanol gan ganolbwyntio ar gyfleoedd economaidd megis y Morlyn Llanw
- Parhau i recriwtio Athrawon Ymarfer fel ei bod yn haws i'n dysgwyr ddod ar draws enghreifftiau o gymhwyso gwybodaeth ac ymchwil yn ymarferol
- Cyfrannu at safle rhyngwladol Cymru trwy sefydlu Academi Fyd-eang Cymru a datblygu nifer o bartneriaethau rhyngwladol, o ansawdd uchel, yn gysylltiedig â chyfadrannau'r Brifysgol
- Datblygu a gwella ein cyfranogiad yng ngwaith Prifysgol Ryngwladol Malaya-Cymru
- Parhau i wella ein hymgysylltiad â'n cyn-fyfyrwyr a'n graddedigion.

## Mesurau Llwyddiant

O fewn y cyfnod cynllunio byddwn yn mesur ein llwyddiant trwy'r canlynol:

- Cynnydd yn y nifer o ddysgwyr sy'n symud ymlaen o addysg bellach y tu allan i Grŵp Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant i raglenni addysg uwch
- Cynnydd yn y nifer o raglenni achrededig, a rhaglenni a ddatblygir mewn cydweithrediad â chyflogwyr neu mewn ymateb i alw gan gyflogwyr
- Gwell cyfleoedd dysgu seiliedig ar waith i feithrin sgiliau ein dysgwyr
- Cynnydd yn y nifer o brentisiaethau, yn cynnwys prentisiaethau lefel uwch, a gynigir trwy Grŵp Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant
- Parhad y trefniadau 'Adduned' gyda phartneriaid mewn awdurdodau lleol
- Ymgysylltiad â Byrddau Gwasanaethau Lleol a chynrychiolaeth barhaus arnynt, gan gyfrannu at Gynlluniau Llesiant Lleol
- Cyflawni ein rhwymedigaethau dan Fargen Ddinesig Dinas-ranbarth Bae Abertawe
- Cyrraedd targedau penodol ar gyfer recriwtio dysgwyr o bob cwr o'r byd
- Sefydlu partneriaethau newydd gyda chyn ganolfannau cydweithio dethol Prifysgol Cymru a chyflawni deilliannau sicrhau ansawdd boddhaol mewn unrhyw adolygiadau allanol o'r partneriaethau hynny
- Sefydlu Sefydliad Chin Kung yn llwyr ar Gampws Llambed a Choleg Wuhan Ligong yn Abertawe
- Datblygu potensial Prifysgol Ryngwladol Malaya-Cymru, gan gynnwys cyfleoedd ar gyfer cynlluniau cyfnewid i staff a dysgwyr

## Dangosyddion Perfformiad Allweddol (KPI)

**KPI 4:** Sefydlu Proffil Rhyngwladol

# Blaenoriaeth Strategol 4:
# Prifysgol i Gymru

## Gwerth

**Datblygu cynaliadwy, trwy ymddwyn mewn ffordd sy'n sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau, a thrwy ymgorffori'r egwyddor hon yn systematig yn ein hymagwedd at addysgu a dysgu.**

## Gwerth

**Cymru a'i chymeriad arbennig, trwy ymgorffori nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn ein holl weithgareddau, a thrwy ddathlu iaith, treftadaeth a diwylliant bywiog Cymru.**





**Mae ein lleoliad yn hanfodol i'n hunaniaeth, ein hanes a'n huchelgeisiau. Yn sail i'n holl weithgareddau mae ymrwymiad i ddiwylliant, treftadaeth ac iaith Cymru, ac i wella'i lles cymdeithasol, amgylcheddol, economaidd a diwylliannol.**

Ni sydd â'r ganran uchaf o ddysgwyr o Gymru o blith yr holl sefydliadau addysg uwch yng Nghymru, a gweithiwn mewn amgylchedd dwyieithog lle anogir a chefnogir staff a dysgwyr i ddatblygu eu sgiliau iaith.

Wrth i ni gyrraedd ein deucanmlwyddiant, cydnabyddwn a dathlwn safle unigryw Grŵp Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant o fewn ei gymunedau, a cheisiwn ddatblygu i'r eithaf y cyfleoedd addysgol a diwylliannol a grëir trwy integreiddio Prifysgol Cymru er lles ein dysgwyr cyfredol a chenedlaethau'r dyfodol.

## Byddwn felly'n

- Parhau i ddatblygu a gwella ein hymrwymiad i ymgorffori cynaliadwyedd yn y cwricwlwm ac yn ein holl weithgareddau
- Parhau i ddatblygu rhaglenni ac ymchwil sy'n canolbwyntio ar warchod a gwella'r amgylchedd ac adnoddau naturiol
- Cyfrannu at fwrlwm diwylliant, celfyddydau gweledol a threftadaeth Cymru a'r iaith Gymraeg trwy barhau i ddarparu addysg a gweithgareddau cyfrwng Cymraeg sy'n annog cyfranogiad cymunedol yn y celfyddydau, chwaraeon a hamdden
- Cyfrannu at ffyniant, diogelwch a chydnerthedd Cymru trwy hyrwyddo sgiliau creadigol, entrepreneuriaeth a hybiau technoleg, a thrwy gefnogi ein graddedigion i ddechrau eu busnesau eu hunain
- Cyfrannu at iechyd Cymru trwy barhau i ddatblygu rhaglenni ac ymchwil sy'n canolbwyntio ar les corfforol a meddyliol
- Parhau i hyrwyddo rhyngwladoli Cymru trwy fynd â'r gorau o Gymru i'r byd a dod â'r gorau o'r byd i Gymru
- Diogelu gwaddol Prifysgol Cymru ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol trwy Adduned Cymru, gan sicrhau bod yr asedau'n cyflawni'r dibenion y'u bwriadwyd ar eu cyfer
- Parhau i ddatblygu a chyfoethogi gwaith Gwasg Prifysgol Cymru
- Cwblhau'r gwaith cysoni ac integreiddio yn dilyn yr uno cyfansoddiadol gyda Phrifysgol Cymru yn 2017
- Parhau i gefnogi a hwyluso mentrau strategol o fewn addysg uwch yng Nghymru

## Mesurau llwyddiant

O fewn y cyfnod cynllunio byddwn yn mesur ein llwyddiant trwy'r canlynol:

- Ymgorffori nodau a ffyrdd o weithio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i gynlluniau strategol cyfadrannau ac adrannau proffesiynol
- Gweithredu ymrwymiadau cynaliadwyedd o fewn cynlluniau strategol Cyfadrannau ac Adrannau
- Cwblhau archwiliadau o'r cwricwlwm i gefnogi ymrwymiadau lles a chynaliadwyedd
- Cofnodi data cynaliadwyedd amgylcheddol a gwybodaeth am gynlluniau rheoli carbon i fod yn sail i amgylcheddau campws cynaliadwy
- Cyflawni targedau penodol ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg trwy ehangu'r nifer o raglenni a gynigir yn ddwyieithog a'r nifer o ddysgwyr sy'n astudio trwy gyfrwng y Gymraeg
- Gweithgareddau a gynhaliwyd i hyrwyddo treftadaeth Gymraeg trwy waith prosiect, datblygu cwricwla newydd a meithrin perthnasau gyda phartneriaid allanol
- Cyflawni targedau recriwtio penodol ar gyfer Academi Llais Ryngwladol Cymru
- Y nifer o sefydliadau sy'n cynnig cyfleoedd arloesol a masnachol trwy ddatblygiad Glannau Abertawe a'r Egin
- Cynnydd yn y nifer o gwmnïau sy'n cael eu cychwyn gan raddedigion ac yn y nifer sy'n parhau i fod mewn busnes ar ôl tair blynedd
- Creu rhaglenni ychwanegol o fewn y portffolio iechyd
- Parhau i ddarparu rhaglenni llythrennedd corfforol i athrawon, gweithwyr proffesiynol a rhieni ac asesu effaith rhaglenni o'r fath ar iechyd a lles cymunedau
- Cyflawni uno cyfansoddiadol llawn rhwng Prifysgol Cymru a Grŵp Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant
- Monitro gweithredu Adduned Cymru

## Dangosyddion Perfformiad Allweddol (KPI)

**KPI 3:** Ymgorffori Cynaliadwyedd

**KPI 6:** Diwylliant a Threftadaeth

# Galluogwyr

Mae cyflawni ein blaenoriaethau strategol yn ddibynnol ar amrywiol alluogwyr ategol, ac mae'r manylion wedi'u nodi mewn cynlluniau gweithredol:






## Galluogydd 1: Sicrwydd Ariannol

Rydym yn ceisio sicrhau sicrwydd ariannol i Grŵp Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant, gan fuddsoddi mewn meysydd o gryfder a photensial academaidd, dadfuddsoddi lle bo'n briodol, a chreu gweddill ariannol i fuddsoddi i'r dyfodol mewn meysydd a fydd o fudd i'n dysgwyr a'n cymunedau.

## Galluogydd 2: Pobl

Rydym yn cydnabod bod ein staff yn adnodd allweddol i gyflawni'r cynllun hwn yn llwyddiannus, ac rydym wedi ymrwymo i ddarparu amgylchedd cynhwysol lle caiff unigolion eu cefnogi a'u hannog i gyrraedd eu potensial llawn.

## Galluogydd 3: Ystadau a Seilwaith

Rydym wedi ymrwymo i ddarparu amgylchedd ffisegol cynaliadwy, carbon isel, o ansawdd uchel i gyfoethogi profiad y dysgwr ac i gynorthwyo darparu ymagweddau arloesol a hygyrch at ddysgu ac addysgu.

## Galluogydd 4: Llywodraethu

Mae aelodau ein Cyngor yn cymryd rhan mewn gweithgarwch sefydliadol ac maent yn derbyn gwybodaeth ac adnoddau o ansawdd uchel i lywio penderfyniadau effeithiol.

## Galluogydd 5: Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Rydym wedi ymrwymo i ddarparu arweinyddiaeth a rheolaeth effeithiol sy'n rhagweithiol ac sy'n caniatáu i ni addasu'n llwyddiannus i gyfleoedd a heriau a ddaw i'r amlwg.

## Galluogydd 6: Cydraddoldeb

Rydym wedi ymrwymo i gael Cymru fwy cyfartal, a hyrwyddwn amgylcheddau ac arferion dysgu, addysgu, cymdeithasol a gwaith sy'n hygyrch, yn deg ac yn gynhwysol.

## Galluogydd 7: Gwelliant parhaus

Rydym wedi ymrwymo i adolygu ein perfformiad yn systematig ar bob lefel, a cheisiwn yn barhaus i wella ansawdd yr hyn yr ydym yn ei gynnig a'i ddarparu.

## Dangosyddion Perfformiad Allweddol (KPI)

**KPI 1:** Cynaliadwyedd Sefydliadol

**KPI 10:** Staff

**KPI 11:** Llywodraethu

## Mesurau Llwyddiant a Dangosyddion Perfformiad Allweddol

Mae ein mesurau llwyddiant ar gyfer y cyfnod cynllunio 2017-2022 yn cael eu meintoli trwy dargedau penodol a osodir ac a adolygir yn flynyddol. Rydym yn rheolaidd yn asesu ein hiechyd sefydliadol trwy ein cyfres o Ddangosyddion Perfformiad Allweddol.

Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

University of Wales
Trinity Saint David
LONDON

COLEG CEREDIGION
Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant
University of Wales Trinity Saint David

WIAV
ACADEMI LLAIS RYNGWLADOL CYMRU
WALES INTERNATIONAL ACADEMY OF VOICE
Rhan o Brifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant | Part of University of Wales Trinity Saint David

Prifysgol Cymru
University of Wales

colegsirgâr